



MAE CLWB RYGBI BANGOR YN DYMUNO PENODI SWYDDOG HWB RYGBI I WEITHIO Â'R CLWB, YSGOLION LLEOL A PHRIFYSGOL BANGOR.

SWYDD DDISGRIFIAD	
Teitl Swydd	Swyddog Hwb Rygbi
Cyflog	£18-23,000 p.a.
Lleoliad	Uchafswm o 10 awr ym Mhrifysgol Bangor yn ystod cyfnod tymor prifysgol. Yn y Clwb, cymuned a lleoliadau eraill am leiafswm o 25 awr yr wythnos (fel bo'n briodol i'r rôl).
Oriau gwaith	Ar gyfartaledd 35 awr yr wythnos ond bydd natur y gwaith yn adlewyrchu'r tymor rygbi domestig, gan gynnwys presenoldeb gyda'r nôs, penwythnosau a rhai gwyliau banc fel bo'r angen.
Statws Cytundebol	Tymor penodol, tair blwyddyn.
Yn atebol i	Rheolwyr llinell yn y Clwb a'r Brifysgol. Grwp Llywio'r Hwb Lleol.
Cysylltiadau Allweddol	Rheolwr Datblygiad Chwaraeon ym Mhrifysgol Bangor Cynrychiolwyr adrannau leuenctid a lau'r Clwb. Rheolwr Rhanbarthol Undeb Rygbi Cymru. CYd-gysylltydd Rhanbarthol Undeb Rygbi Cymru Rhanbarthau Undeb Rygbi Cymru/ Cynrychiolwyr Penaethiaid Addysg Gorfforol Ysgolion Uwchradd Lleol

Amlinelliad o'r rôl

Rôl y Swyddog Hwb yw hyrwyddo a datblygu rygbi'r undeb oddi mewn lleoliadau Addysg

- Yn y Clwb ac ysgolion lleol prif ddyletswyddau'r Swyddog Hwb fydd hyrwyddo a datblygu rygbi yn amser cwricwlwm ac arwain gweithgareddau allgyrsiol ar gyfer

bechgyn a merched o bob gallu rhaglen rygbi gynhwysol – gan gynnwys datblygu hyfforddwyr, dyfarnwyr, gweinyddwyr a gwirfoddolwyr.

- Yn y Brifysgol bydd angen i'r Swyddog Hwb arwain hyfforddiant timau'r Brifysgol a chynorthwyo i ddenu chwaraewyr o'r gymuned myfyrwyr, drwy gefnogi rygbi fel gweithgaredd hamdden i wrywod a benywod o bob gallu, gan gynnwys datblygiad gweithlu gynhwysol o fewn y sefydliad a thu hwnt yn y gymuned.

Dyddiad cychwyn: Mor fuan a phosib

Dyddiad cau ceisiadau: 5ed o Hydref 2018

Anfonwch CV at Sarah Thomas, Clwb Rygbi Bangor, Cae Milltir, Bangor, Gwynedd LL57 2AA neu drwy e-bôst at sarah29oct@hotmail.com. Am ragor o wybodaeth ac esboniad manylach o'r swydd ddisgrifiad mae croeso i chi gysylltu â Sarah ar 07771 703371.